Atodiad 1

# CYNGOR SIR CEREDIGION

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **14 Chwefror 2023** |
| **Teitl:** | **Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24.** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Ystyried Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a Pholisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2023/24.**<br><br>**ER PENDERFYNIAD** |
| **Portffolio Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Codau Ymarfer CIPFA ar Reoli Materion Ariannol a'r Trysorlys 2021 yn mynnu bod y Cyngor yn llunio Strategaeth ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Mae hon yn esbonio polisïau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei fuddsoddiadau a'i ddyledion a blaenoriaethu sicrwydd a hylifedd y buddsoddiadau hyn.

Mae'n rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Strategaeth yn flynyddol. Cyhoeddir adroddiad canol blwyddyn hefyd, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cyhoeddir Adroddiad Alldro. Hefyd, gall yr Aelodau ei hadolygu'n rheolaidd fel rhan o adroddiadau neilltuol i Bwyllgor Craffu'r Adnoddau Corfforaethol, yn ogystal â hyfforddiant i'r Aelodau ar adegau priodol. Nod y trefniadau adrodd hynny yw sicrhau bod pwy bynnag sydd â chyfrifoldebau amrywiol dros Reoli'r Trysorlys yn llwyr werthfawrogi goblygiadau'r polisïau a'r gweithgareddau sy'n ymwneud â rheoli'r trysorlys, a bod pwy bynnag sy'n gweithredu'r polisïau ac yn cynnal trafodion wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran dirprwyo ac adrodd mewn modd priodol. Mae'r strategaeth a awgrymir ar gyfer 2023/24 wedi ei seilio ar safbwyntiau ynghylch cyfraddau llog, yn ogystal â rhagolygon y farchnad gan ymgynghorwyr ac yswirwyr Trysorlys y Cyngor ac mae'n cynnwys:

- Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys
- Sefyllfa Portffolio'r Trysorlys
- Rhagolygon y cyfraddau llog
- Aildrefnu dyledion
- Polisi Teilyngdod Credyd
- Trefniadau Bancio
- Dangosyddion Darbodus
- Yr Anghenion Cyllidol
- Strategaeth Fenthyciadau
- Strategaeth Fuddsoddi
- Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw

Mae'r elfennau hyn yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Canllawiau Llywodraeth Cymru o ran Buddsoddiadau a'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, Cod Darbodus CIPFA a Chod CIPFA o ran Rheoli'r Trysorlys.

Yn ychwanegol at y Strategaeth, yr adroddiadau Canol Blwyddyn a'r adroddiadau alldro, bydd gofyniad hefyd o 2023/24 i adrodd am yr holl ddangosyddion darbodus sy'n edrych ymlaen, gan wneud hynny o leiaf bob chwarter. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd fel ymgynghorwyr allanol i'r Cyngor ynghylch y Trysorlys ar gontract a ddaw i ben ar yr 30/08/2026. Fodd bynnag, er bod gennym ymgynghorwyr allanol, y Cyngor ei hun sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli'r Trysorlys.

## 2. DATGANIAD POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn diffinio ei weithgareddau o ran Rheoli'r Trysorlys fel 'rheoli buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod, ei drafodion o ran bancio, marchnadoedd arian a'r farchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol dros y risgiau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau posibl yn unol â'r risgiau hynny'.

Mae'r Cyngor yn ystyried mai nodi, monitro a rheoli risg yw'r maen prawf pennaf o ran mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau lle mae Rheoli'r Trysorlys yn y cwestiwn. Felly, o ran dadansoddi gweithgareddau sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys ac adrodd yn eu cylch canolbwyntir ar y goblygiadau sydd o ran risg i'r Cyngor, ac unrhyw offerynnau ariannol yr ymgymerir â hwy i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd Rheoli'r Trysorlys yn effeithiol yn help iddo gyflawni'r amcanion sydd ganddo o ran ei fusnes a'i wasanaethau. Felly, mae wedi ymrwymo i'r egwyddor o geisio gwerth am arian o ran rheoli'r trysorlys, a gweithredu technegau cynhwysfawr ac addas o ran rheoli perfformiad, yng nghyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

## 3. DANGOSYDDION DARBODUS

Mae'r Dangosyddion Darbodus sydd yn Atodiad A yn berthnasol o ran gosod Strategaeth integredig ar gyfer Rheoli'r Trysorlys. Fe'u cyflwynir i'w cymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor Llawn ar 02/03/2023.

## 4. SEFYLLFA PORTFFOLIO'R TRYSORLYS

Dyma fanylion Portffolio Trysorlys y Cyngor:

| | Ar 30/09/2022 £m | Ar 31/03/2022 £m |
|---|---:|---:|
| Benthyciadau ar Gyfradd Sefydlog | | |
| - PWLB | 101.7 | 108.9 |
| - Benthyciadau'r farchnad | 5.8 | 5.8 |
| - Ad-dalu benthyciad Llywodraeth Cymru | 0.9 | 0.9 |
| **Cyfanswm y ddyled** | **108.4** | **115.6** |

| | | |
|---|---|---|
| Buddsoddiadau | | |
| - Mewnol | 42.2 | 55.5 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **42.2** | **55.5** |
| **Dyled Net** | **66.2** | **60.1** |

Cipolwg ar adeg benodol yw'r ffigurau sydd yn y tabl, ac mae union lefel y benthyciadau a'r buddsoddiadau a wneir yn ystod y flwyddyn yn gallu amrywio'n ddirfawr, wrth i incwm ddod i mewn ac wrth i daliadau gael eu gwneud.

## 5. Y GOFYNION CYLLIDO

Gellir bwrw amcan ynghylch y gofynion cyllido at y dyfodol trwy ystyried yr eitemau mwyaf sylweddol o ran llif arian sy'n codi o effeithiau cyfun y Rhaglen Gyfalaf 3 Blynedd ddiweddaraf, cyllideb arfaethedig 2023/24, lefel y dyledion sydd ar fin aeddfedu ac union lefel y benthyciadau cyfredol o'i gymharu â'r angen sylfaenol i fenthyca (a adwaenir hefyd fel benthyca mewnol). O ystyried pob un o'r ffactorau hynny yn ei dro:

| | 2023/24 Amcangyfrif £m | 2024/25 Amcangyfrif £m | 2025/26 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|
| a) Effaith y Rhaglen Gyfalaf a'r Cyllidebau Refeniw diweddaraf | | | |
| Benthyca â Chymorth Llywodraeth Cymru | 2.9 | 2.9 | 2.9 |
| Coastal Protection Scheme - WG Supported Prudential Borrowing | 17.9 | 2.5 | - |
| Taliadau dyledion statudol a roddwyd o'r neilltu (MRP) | (1.4) | (1.5) | (1.6) |
| Amcangyfrif o'r newid yn y cronfeydd wrth gefn a'r balansau | 10.7 | 1.5 | 0.6 |
| **Amcangyfrif o'r gofynion cyllido** | **29.2** | **5.4** | **1.9** |
| b) Effaith y dyledion sy'n aeddfedu | | | |
| Dyled aeddfedu PWLB yn aeddfedu | - | 3.0 | - |
| **Amcangyfrif o'r gofynion cyllido** | **-** | **3.0** | **-** |
| c) Effaith Sefyllfa'r Benthyciadau Mewnol | | | |
| | *31/03/24* | *31/03/25* | *31/03/26* |
| *Amcangyfrif o'r Gofynion Cyllid Cyfalaf* | *156.5* | *160.4* | *161.7* |
| *Amcangyfrif o'r Benthyciadau Allanol Gros* | *137.0* | *144.3* | *149.3* |
| *Amcangyfrif o'r Gwahaniaeth* | *19.5* | *16.1* | *12.4* |
| **Gostyngiad mewn Benthyca Mewnol** | - | 2.0 | 3.0 |
| **AMCANGYFRIF O GYFANSWM y gofynion cyllido** | **29.2** | **10.4** | **4.9** |

Yn gyffredinol, amcangyfrifir bod posibilrwydd y bydd angen benthyca oddeutu £44.5m dros y tair blynedd nesaf. Y prif beth sy'n gyrru hyn yw'r benthyciad ariannol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Diogelu'r Arfordir (£19.5m yw'r amcangyfrif diweddaraf) ar y cyd â dyled PWLB yn aeddfedu (£3.0m yn 2024/25) ynghyd ag adolygu benthyca mewnol yn barhaus i sicrhau nad yw'n mynd yn rhy sylweddol.

## 6. RHAGOLYGON Y CYFRADDAU LLOG

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae Cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn 4.0% ar ôl iddi gael ei chodi'n sylweddol yn 2022 ar ôl iddi gyrraedd lefelau hanesyddol o isel – 0.1% – yn ystod pandemig Covid-19. Yn y tabl isod mae rhagolygon ymgynghorydd trysorlys y Cyngor parthed cyfraddau llog ar hyn o bryd. Mae'r rhagolygon yn disgwyl i'r Gyfradd Banc barhau i godi hyd at 4.5% yn ystod 2023 a gostwng ychydig wedi hynny. Mae'n faes cyfnewidiol ac mae'r rhagolygon hyn yn debygol o newid.

| Gwasanaethau Ased Link: Cyfradd Llog a ragwelir | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mawrth 23 | Mehefin 23 | Medi 23 | Rhagfyr 23 | Marwrth 24 | Mehefin 24 | Medi 24 | Rhagfyr 24 |
| Cyfradd Banc | 4.25% | 4.50% | 4.50% | 4.50% | 4.00% | 3.75% | 3.50% | 3.25% |

Cafodd y rhagolygon uchod eu diweddaru ar 19 Rhagfyr ac maent yn adlewyrchu barn ein ymgynghorwyr trysorlys y bydd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) yn eiddgar i ddangos ei awydd i ostwng chwyddiant drwy ragor o godiadau yn y gyfradd llog.

Rhagwelir y bydd Banc Lloegr yn awyddus i lacio polisi ariannol pan fydd y gwaethaf o'r pwysau chwyddiant y tu ôl i ni – ond bydd angen i'r amseru fod yn graff: o dorri yn rhy fuan, mae'n ddigon posib y bydd pwysau chwyddiant yn parhau; o dorri'n rhy hwyr, gellir ymestyn unrhyw gwymp neu ddirwasgiad.

Ymddengys fod mesuriad llog y Mynegai Prisiau Defnyddwyr wedi cyrraedd ei anterth – 11.1% – yn Chwarter 4 2022. Er y pwysau o ran costau byw, bydd y Banc eisiau gweld tystiolaeth nad yw cyflogau'n codi a chodi mewn marchnad lafur dynn iawn.

Yn ystod y misoedd sydd i ddod bydd y rhagolygon yn cael eu llywio nid yn unig gan ddatganiadau ac esboniadau'r MPC ynghylch data economaidd a'i bolisïau ariannol, a gan y Llywodraeth ynghylch ei pholisïau cyllidol, ond hefyd gan y gwrthdaro parhaus rhwng Rwsia ac Wcráin.

## 7. Y STRATEGAETH FENTHYCA

Mae rhagolygon Link ar gyfer cyfraddau benthyca (ar ôl ystyried gostyngiad cyfraddau PWLB (0.20%) fel a ganlyn:

| Gwasanaethau Ased Link: Cyfradd Llog a ragwelwyd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mawrth 23 | Mehefin 23 | Medi 23 | Rhagfyr 23 | Marwrth 24 | Mehefin 24 | Medi 24 | Rhagfyr 24 |
| Cyfradd 5 mlynedd PWLB | 4.20% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.90% | 3.80% | 3.60% | 3.50% |
| Cyfradd 10 mlynedd PWLB | 4.40% | 4.40% | 4.30% | 4.10% | 4.00% | 3.90% | 3.80% | 3.60% |
| Cyfradd 25 mlynedd PWLB | 4.60% | 4.60% | 4.50% | 4.40% | 4.20% | 4.10% | 4.00% | 3.90% |
| Cyfradd 50 mlynedd PWLB | 4.30% | 4.30% | 4.20% | 4.10% | 3.90% | 3.80% | 3.70% | 3.60% |

Ar hyn o bryd mae’r Cyngor yn tanfenthyg oherwydd ei fod yn defnyddio benthyciadau mewnol yn lle benthyciadau allanol. Yn ymarferol, mae’r angen llawn am fenthyciadau cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf ac eithrio Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill) yn ffigur uwch nag union ddyled benthyciadau allanol y Cyngor fel y gwelir yn y tabl yn Adran 5c). Mae'r strategaeth hon yn un ddarbodus ar hyn o bryd gan fod disgwyl i gyfraddau benthyg tymor canolig a hirdymor ostwng unwaith yr eir i’r afael â’r pryderon presennol o ran chwyddiant, a hynny drwy bolisi ariannol mwy tynn yn y tymor byr.

O ystyried y ffactorau hyn oll, yn ogystal â’r amcangyfrif o angen y Cyngor am gyllid sydd yn Adran 5, bydd strategaeth fenthyca arfaethedig y Cyngor yn ystyried benthyciadau newydd trwy ystyried y canlynol:

- Benthyciadau newydd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) (gan ystyried siâp y gromlin elw a’r proffil cyfredol o ran aeddfedrwydd y dyledion) er mwyn ateb yr amcangyfrif o’r angen i fenthyca sydd wedi ei nodi.
- Benthyciadau marchnad hirdymor ar gyfradd sefydlog (lle mae’r cyfraddau’n is o lawer na chyfraddau’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus am y cyfnod aeddfedu cyfatebol), ar yr amod bod cydbwysedd priodol i’w gael rhwng dyledion y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a’r farchnad drwyddi draw yn y portffolio dyledion.
- Gellid defnyddio benthyciadau dros dro neu dymor byr gan awdurdodau lleol eraill neu’r marchnadoedd arian am hyd at 5 mlynedd
- Mae’n bosib yr ystyrir hefyd yr Asiantaeth Bondiau Bwrdeistrefol.

Ni wnaiff y Cyngor fenthyg mwy na’r hyn y bydd arno ei angen, nac ychwaith fenthyca ymlaen llaw, er mwyn gwneud elw o fuddsoddi’r symiau ychwanegol a fenthycir yn unig. Byddai angen i unrhyw benderfyniad i fenthyca ymlaen llaw cyn i’r angen godi fod yn unol â’r Amcangyfrifon o’r Anghenion Cyllid Cyfalaf cymeradwy (un o’r Dangosyddion Darbodus) ac fe gaiff ei ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau gwerth am arian, y gall y Cyngor sicrhau diogelwch y cyllid hwnnw ac y gall fforddio’r ‘costau cario’ tymor byr.

O ystyried hyn oll, bydd angen arfer gofal o ran Rheoli’r Trysorlys yn 2023/24. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro’r farchnad o ran cyfraddau llog a bydd yn cymryd agwedd bragmataidd wrth i amgylchiadau newid, a bydd yn rhoi cyfrif am gyngor

ymgynghorwyr allanol y Cyngor parthed y Trysorlys ac yn adrodd unrhyw benderfyniadau perthnasol gerbron y Cabinet y tro nesaf y bydd cyfle i wneud hynny.

## 8. AILDREFNU DYLEDION

Prin yw’r cyfleoedd i aildrefnu dyledion gyda’r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ei hun yn yr hinsawdd sydd ohoni. Mae hefyd yn annhebygol y bydd y Cyngor yn gallu ad-dalu unrhyw ddyledion pellach cyn pryd, oni fyddai hynny’n rhan o drefniadau i aildrefnu dyledion. Fodd bynnag, petai cyfleoedd yn codi i ailstrwythuro byddai’r rheiny’n cael eu hystyried yn ofalus a byddai’r rhesymau dros aildrefnu o unrhyw fath yn cynnwys:

- creu arbedion ariannol a / neu arbedion llif arian gostyngol;
- helpu i gyflawni’r strategaeth fenthyca a amlinellir uchod; a
- gwella balans y portffolio (e.e. y proffil aeddfedu)

## 9. Y STRATEGAETH FUDDSODDI

### 9.1 Trosolwg

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, Côd Ymarfer a Nodiadau Canllaw CIPFA ar Reoli’r Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a Thraws-sectorau 2021, a Nodiadau Canllaw CIPFA ar Reoli’r Trysorlys 2021.

Mae Llywodraeth Cymru a CIPFA wedi ymestyn ystyr ‘buddsoddiadau’ i gynnwys buddsoddiadau ariannol a rhai nad ydynt yn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin yn unig â buddsoddiadau'r Trysorlys (ariannol), sef y rhai sy'n cael eu rheoli gan y tîm rheoli'r trysorlys.

Dyma flaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yn nhrefn blaenoriaeth:

- Diogelwch y cyfalaf
- Hylifedd y buddsoddiadau.
- Arenillion (*yield)*

Hefyd bydd y Cyngor yn ceisio cael yr elw gorau posib ar ei fuddsoddiadau yn gymesur â’r diogelwch a’r hylifedd priodol. Mae awydd y Cyngor am risg yn isel er mwyn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch ei fuddsoddiadau. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol ystyrir ei bod yn briodol cadw buddsoddiadau yn rhai tymor byr rhag ofn y bydd angen am lif arian. Serch hynny, lle bo'n briodol bydd y Cyngor hefyd yn ystyried y gwerth a geir mewn cyfnodau buddsoddi o hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol uchel eu sgôr.

Mae benthyg arian dim ond er mwyn buddsoddi a gwneud elw yn anghyfreithlon ac ni fydd y Cyngor yn ymgymryd â gweithgaredd o'r fath.

Mae incwm buddsoddi cyllideb refeniw 2023/24 wedi cynyddu gan £1m o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraddau llog ac mae'n rhan o ddull y Cyngor o ‘Wneud Pethau'n Wahanol’ i helpu i gydbwyso'r gyllideb.

**9.2 Polisi Teilyngdod Credyd**

Mae'r Swyddog Adran 151 yn defnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Link. Mae'r gwasanaeth hwnnw'n defnyddio dull modelu soffistigedig ac mae statysau credyd gan y tair asiantaeth sy'n gosod statysau credyd - Fitch, Moodys a Standard & Poors - yn greiddiol iddo. Fodd bynnag, nid yw'n dibynnu'n llwyr ar statws credyd cyfredol y gwahanol bartïon, mae'n defnyddio'r wybodaeth ganlynol hefyd:

- Gwylio credyd a rhagolygon credyd gan yr asiantaethau statws credyd
- Amrediadau Cytundebau Ffeirio Credyd (CDS) er mwyn rhoi rhybudd mewn da bryd o newidiadau tebygol mewn statws credyd
- Statysau sofran er mwyn dewis partïon i gontract o blith y gwledydd mwyaf dibynadwy yn unig

Mae'r dull hwn o fodelu'n cyfuno statysau credyd, gwylio credyd, rhagolygon credyd ac amrediadau Cytundebau Ffeirio Credyd (CDS) mewn system sgorio gytbwys a'r canlyniad yw cyfres o fandiau sydd wedi eu codio yn ôl lliwiau. Mae'r bandiau hynny'n dangos teilyngdod credyd cymharol y partion i gontract ac maent yn awgrymu uchafswm ar gyfer hyd y buddsoddiad. Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfnodau uchafsymiol tebyg i'r rhai a awgrymir gan fethodoleg safonol Link a, heblaw am gadw buddsoddiadau sydd o dan 1 flwyddyn o hyd.

| **Band Cyfnod** | **Cyfnod hiraf arfaethedig *Link's*** | **Cyfnod arfaethedig y Cyngor** | |
|---|---|---|---|
| Melyn | 5 mlynedd | **1 flwyddyn** | |
| Piws | 2 flynedd | **1 flwyddyn** | |
| Glas | 1 flwyddyn | **1 flwyddyn** | *yn gymwys i fanciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu gwladoli'n rhannol/yn llawn* |
| Oren | 1 flwyddyn | **1 flwyddyn** | |
| Coch | 6 mis | **6 mis** | |
| Gwyrdd | 100 niwrnod | **100 niwrnod** | |
| Dim lliw | Nis defnyddir | **Nis defnyddir** | |

Caiff pob statws credyd ei fonitro bob wythnos, ac fe hysbysir y Cyngor am newidiadau yn statysau pob un o'r tair asiantaeth trwy wasanaeth teilyngdod credyd Link's, yn ogystal â bwletin wythnosol o statysau credyd cyfredol pob parti i gontract a bandiau cyfnodau. Pe bai rhyw israddio neu'i gilydd yn peri bod parti i gontract/cynllun buddsoddi yn methu â chyflawni meini prawf sylfaenol y Cyngor, ni wneir defnydd pellach arno i wneud buddsoddiadau newydd. Ar adegau yn y gorffennol mae Link's wedi gosod lliw gwyrdd yn lliw diofyn ar bob parti i gontract, ac mae hwnnw'n nodi cyfnod benthyca uchaf o dri mis. O ran eglurder, os digwydd hynny eto, bydd y Cyngor yn ystyried cod lliw'r parti cyn gosod lliw diofyn, er mwyn penderfynu a yw'r parti i gontract yn cyflawni meini prawf y statws credyd cymeradwy a welir yn Atodiad B: Anecs 1 ac yna defnyddir y cyfnod uchaf o dri mis y mae Link's yn ei awgrymu ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, ni ddibynnir yn llwyr ar wasanaeth teilyngdod credyd allanol Link's; bydd y Swyddog Adran 151 hefyd yn defnyddio data/gwybodaeth am y farchnad a gwybodaeth ynghylch cymorth y llywodraeth i'r banciau a statws credyd cymorth y llywodraeth.

**9.3 Gwrthbartïon Cyfredol**

O ran y gwrthbartïon a ddefnyddir fel rhan o Strategaeth Fuddsoddi gyfredol, yn gryno yr ydym yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Dim buddsoddiadau am fwy na blwyddyn
- Dim buddsoddiadau gyda phartïon i gontract nad ydynt yn cyflawni meini prawf sylfaenol statws credyd a ddiffinnir yn 'Wyrdd' gan *Link*
- Rhestr sefydlog o bartïon (yn amodol ar gyflawni'r meini prawf sy'n ymwneud â statws credyd): Banc Barclays, Grŵp Bancio National Westminster gan gynnwys Natwest Markets plc, Grŵp Bancio Lloyds gan gynnwys Lloyds Bank Corporate Markets plc, HSBC, Cymdeithas Adeiladu Nationwide, Santander UK, Royal Bank of Scotland, Cymdeithas Adeiladu Coventry, Cymdeithas Adeiladu Leeds, Cymdeithas Adeiladu Yorkshire, Cymdeithas Adeiladu Skipton, Banc Standard Chartered, Banc Rhyngwladol Goldman Sachs, grŵp Bank of Scotland a chyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) Llywodraeth y DU.

Gan roi ystyriaeth lawn i'r blaenoriaethau o ran buddsoddi sef diogelwch, hylifedd ac arenillion, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r farchnad am wrthbartïon buddsoddi a chynhyrchion buddsoddi a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, y cymunedau a'r gymdeithas. Ar hyn o bryd, ceir nifer o anghysonderau wrth asesu rhinweddau gwrthbartïon o ran yr amgylchedd, materion cymdeithasol a threfniadau llywodraethu ac nid oes yna system safonol i bwyso a mesur y rhinweddau hyn. Serch hynny, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'n hymgynghorwyr i nodi gwrthbartïon a chynhyrchion buddsoddi priodol.

**9.4 Strategaeth Arfaethedig 2023/24**

Wrth wneud buddsoddiadau, cyfeirir at y balans craidd a'r gofynion o ran llif arian a fydd, yn gyffredinol, yn bolisi gweithredol o fuddsoddi am gyfnodau hyd at 3 mis. Fodd bynnag, os bydd cyllid dros ben, yna gellid gwneud buddsoddiadau am gyfnodau hyd at flwyddyn. Gwneir hynny drwy gymryd cyngor gan ymgynghorwyr allanol y Cyngor yn ôl y gofyn, ystyried amgylchiadau cyfredol y farchnad, a sicrhau bod pob gwrthbarti a ddefnyddir yn ymddangos ar y Rhestr o Wrthbartïon Cymeradwy sydd yn Atodiad B (Anecs 1) ac yn cyflawni'r meini prawf sydd wedi eu pennu o ran statws credyd.

Mae rhestr gyflawn o offerynnau buddsoddi arfaethedig 2023/24 yn Atodiad B. Caiff terfynau'r gwrthbartïon eu hadolygu'n rheolaidd ac fe gaiff unrhyw newidiadau eu hawdurdodi gan y Swyddog Adran 151. Mae'r rhestr ddiweddaraf o wrthbartïon arfaethedig i'w gweld yn Anecs 1 Atodiad B. Hefyd ni ragwelir y byddwn yn defnyddio Rheolwr Cronfa Allanol, ac eithrio i brynu Giltiau'r Llywodraeth a/neu Filiau'r Trysorlys.

## 10. CONTRACT BANCIO

Mae gan y Cyngor gontract â Barclays i ddarparu gwasanaethau bancio fydd yn para tan 31/03/2024.

## 11. POLISI ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)

Mae Datganiad Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24 i'w weld yn Atodiad C ac mae'n nodi bod y Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw presennol yn parhau.

## 12. GWYBODAETH A SGILIAU

Mae Côd CIPFA yn mynnu bod swyddog adran 151 yn sicrhau bod Aelodau yn cael hyfforddiant digonol ynghylch rheoli'r trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r Aelodau sy'n gyfrifol am graffu. Mynychodd yr Aelodau ddigwyddiad 'Rheoli'r Trysorlys – Hyfforddiant i Aelodau' ar 8 Tachwedd 2022. Cyflwynwyd yr hyfforddiant yma gan ein ymgynghorwyr ar reoli'r trysorlys, Link Treasury Solutions Ltd.

Mae anghenion hyfforddiant y swyddogion sy'n rheoli'r trysorlys hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cynnal cofrestr Gwybodaeth a Sgiliau sy'n nodi pob rôl sy'n gysylltiedig â swyddogaeth y Trysorlys gan nodi'r cymwyseddau craidd sydd eu hangen ar gyfer pob rôl, cofnodi unrhyw hyfforddiant a fynychwyd gan swyddogion ynghyd â'u gofynion hyfforddi at y dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** | Do |
| | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Mae'r strategaeth yn nodi sut mae'r cyngor yn rheoli ei arian parod, ei ddyledion a'i fuddsoddiadau yn y tymor byr ac yn y tymor hwy. |
| | **Integreiddio:** | Amherthnasol |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | **Cydweithio:** | Gyda'n Darparwyr Bancio Corfforaethol (Barclays), ein Hymgynghorwyr Trysorlys a'r rhestr o bartïon i gontract a nodwyd yn y strategaeth. |
| | **Cynnwys:** | Amherthnasol |
| | **Atal:** | Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y cyngor yn rheoli ei adnoddau arian parod mewn modd rhagweithiol. |

**Argymhellion:**

**Argymhellir bod y Cabinet yn nodi'r adroddiad gan wneud y canlynol:**

**a) cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys fel y'i hamlinellir yn yr adroddiadau ar gyfer Benthyca a Buddsoddi;**
**b) cymeradwyo'r Atodlen Buddsoddi fel y'i nodir yn Atodiad B;**

c) **cymeradwyo'r Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw fel y'i nodir yn Atodiad C; a**
d) **dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cyllid a Chaffael i newid Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Atodlen Buddsoddi yn ystod y flwyddyn;**

**Hefyd, dylai'r Cabinet argymell bod y Cyngor Llawn yn gwneud y canlynol:**

e) **cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer Benthyca a Buddsoddi 2023/24; a**
f) **cymeradwyo Polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw 2023/24.**

| | |
|---|---|
| **Rheswm dros y penderfyniad:** | Gosod Strategaeth Rheoli Trysorlys a Pholisi Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24 |
| **Trosolwg a Chraffu:** | I'w ystyried |
| **Fframwaith Polisi:** | Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 |
| **Amcanion Strategol:** | Mae Cyngor Sir Ceredigion yn sefydliad sy'n addas i'r diben o ddarparu gwasanaethau sy'n gwella ac sy'n cyflawni anghenion dinasyddion Ceredigion |
| **Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** | Cyllid: Incwm buddsoddi/llog allanol a dalwyd |
| **Pwerau Statudol:** | Deddf Llywodraeth Leol 2003 |
| **Papurau Cefndir:** | Dim |
| **Atodiadau:** | Atodiad A: Dangosyddion Darbodus sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys<br>Atodiad B: Atodlen Buddsoddi<br>Atodiad C: Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24 |
| **Swyddog Arweiniol Corfforaethol:** | Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael |
| **Swyddog Adrodd:** | Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd |
| **Dyddiad:** | 31/01/2023 |